# Bygythiadau i Ddraenogod

**Rheolau**
*Torrwch y datganiadau allan a'u trefnu ar ffurf siâp diemwnt, gan osod y bygythiadau mwyaf sylweddol i ddraenogod ar y brig a'r lleiaf sylweddol ar y gwaelod.*

*Trafodwch eich dewisiadau gyda'ch partner a byddwch yn barod i egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau i weddill y dosbarth.*

### Colli cynefinoedd
Mae colli cynefinoedd naturiol fel gwrychoedd a choetiroedd yn lleihau'r lle sydd ar gael i ddraenogod fyw a phorthi.

### Plaladdwyr
Mae'r defnydd eang o blaladdwyr yn niweidio draenogod trwy ladd y pryfed maen nhw'n dibynnu arnyn nhw i gael bwyd.

### Trafnidiaeth ffyrdd
Yn aml mae draenogod yn dioddef damweiniau ffyrdd, yn arbennig wrth groesi ffyrdd yn y nos. Amcangyfrif bod 200,000 yn cael eu lladd bob blwyddyn ar y ffyrdd.

### Peryglon gerddi ac eraill
Gall peryglon dynol megis pyllau, rhwydi, a pheiriannau garddio fel torwyr gwair a strimwyr niweidio draenogod. Mae rhwydi goliau pêl-droed hefyd yn beryglus.

### Newid hinsawdd
Gall gaeaf cynhesach darfu ar drwmgwsg draenogod, gan eu gwneud yn fwy tebygol o ddeffro'n aml a defnyddio'u cronfeydd egni.

### Newidiadau tywydd
Gall newidadau patrwm tywydd effeithio ar argaeledd pryfed, prif ffynhonnell bwyd draenogod.

### Tarfu ar safleoedd nythu
Gall tarfu gan bobl ar safleoedd nythu roi straen ar ddraenogod ac amharu ar eu cylchoedd bridio, gan arwain at lai o rai bach.

### Heintiau ffwngaidd
Gall draenogod fod yn agored i heintiau ffwngaidd, yn enwedig mewn amodau llaith, a all wanhau eu systemau imiwnedd a'u gwneud yn fwy agored i fygythiadau eraill.

### Trogod
Gall gaeafau cynhesach a gwlypach greu amodau delfrydol i drogod oroesi a lluosogi. Mae trogod yn cario clefydau sy'n gallu peryglu iechyd draenogod.

### Creulondeb dynol
Yn anffodus, mae rhai pobl yn parhau i niweidio draenogod yn fwriadol, naill ai drwy greulondeb neu anwybodaeth, sy'n gallu arwain at ganlyniadau trychinebus i ddraenogod.

### Coelcerthi
Gall draenogod chwilio am loches mewn coelcerthi sydd heb eu cynnau. Pan fydd y goelcerth yn cael ei chynnau, gall draenogod gael eu hanafu neu eu lladd gan eu bod yn cyrlio i fyny yn hytrach na rhedeg i ffwrdd.

### Sbwriel
Gall draenogod gael eu dal mewn sbwriel sy'n cael ei daflu, fel cylchoedd plastig neu ganiau.



*Gall draenogod rhedeg hyd at 6 milltir yr awr!*

# Datrysiadau Posibl

*Ymchwiliwch i ddatrysiadau posibl, fel creu gerddi sy'n gyfeillgar i ddraenogod, adeiladu blychau nythu, neu arafu traffig mewn ardaloedd lle mae draenogod yn byw. Meddyliwch am sut y gall y syniadau hyn helpu i ddiogelu draenogod a lleihau'r bygythiadau sy'n eu hwynebu.*

## Ar ôl i chi gasglu eich gwybodaeth, ysgrifennwch ddarn ar gyfer cyfryngau cymdeithasol yr ysgol!

**Cyfanswm 150 o eiriau**

*Yn eich post, eglurwch pam y mae draenogod angen help a rhannwch sut y gall pobl eu gwarchod. Byddwch yn greadigol a rhannwch awgrymiadau syml y gall eraill eu dilyn i wneud gwahaniaeth go iawn!*



*Mae gan ddraenog rhwng 5000 a 7000 o bigau!*